Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Abercynon**
**Greenfield Terrace**
**Glancynon**
**Abercynon**
**RCT**
**CF45 4TH**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**
**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 15/07/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon yn cael ei chynnal gan awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae 339 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys plant meithrin, ar y gofrestr, a chânt eu haddysgu mewn 12 o ddosbarthiadau. Mae tua 16.4% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae tua 19% o'r disgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, ac nid oes yr un â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Tua 11% o’r disgyblion sy’n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg. Ychydig iawn o blant sydd yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Nid oes yr un disgybl yn dod o gefndiroedd lleiafrif ethnig ac ychydig iawn o ddisgyblion sydd â’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.

Cychwynnodd y pennaeth presennol yn ei swydd yn mis Ionawr 2011. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf yng Ngorffennaf 2012.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Abercynon yn 2014-2015 yw £2,766. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf yw £5,513 a'r lleiafswm yw £2,514. Mae Ysgol Gymraeg Abercynon yn safle 102 o'r 110 ysgol gynradd yn Rhondda Cynon Taf o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

**Mae perfformiad yr ysgol yn dda oherwydd bod:**

- Llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu hamser yn yr ysgol
- Defnydd llafar y disgyblion yn y Gymraeg yn nodwedd gref drwy'r ysgol
- Safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dda o ran cyrraedd y deilliant disgwyliedig mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol
- Safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gyson dda o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig mewn iaith a mathemateg
- Llawer o ddisgyblion yn defnyddio'u medrau meddwl yn effeithiol
- Medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn datblygu'n dda
- Gwybodaeth y disgyblion am y gymuned a hanes lleol yn dda
- Ymddygiad y disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol yn ogystal â'r parch a gofal maent yn dangos at ei gilydd ac at oedolion

### Rhagolygon gwella

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:**

- Gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol ac mae wedi llwyddo i rannu hyn yn llwyddiannus
- Arweinwyr wedi sefydlu rhaglen effeithiol iawn i ddatrys problemau ymddygiad ac emosiynol disgyblion
- Defnydd da iawn o arbenigedd gwahanol aelodau o staff
- Staff yn gweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol
- Sylw priodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol
- Hunanarfarnu'r ysgol yn adnabod cryfderau'r ysgol yn dda a'r hyn sydd angen ei wella
- Arweinwyr yn rheoli adnoddau'n effeithiol

## Argymhellion

A1 Gwella presenoldeb fel ei fod yn cymharu'n well ag ysgolion tebyg

A2 Gwella llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion

A3 Sicrhau cysondeb mewn her i'r disgyblion mwy abl a thalentog

A4 Gwella'r addysgu yn y dosbarthiadau hynny lle mae addysgu digonol

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau llawer o'r disgyblion yn isel. Fodd bynnag, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, ac mewn gwersi, mae llawer yn gwneud cynnydd da. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau meddwl yn bwrpasol, er enghraifft, wrth gynllunio mapiau meddwl sy'n ymwneud â thema'r tymor. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni gystal ag y gallent.

Er mai ychydig o'r disgyblion sy'n dod o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg, mae'r rhan fwyaf yn llwyddo i wneud cynnydd cadarn yn eu defnydd o'r Gymraeg yn fuan ar ôl dechrau'r ysgol. Mae defnydd llafar y disgyblion o'r Gymraeg yn nodwedd gref drwy'r ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa a phatrymau brawddegau yn gywir mewn sefyllfaoedd gwahanol. Maent yn mynegi eu syniadau'n hyderus gan ynganu a goslefu'n ddealladwy. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau'r athrawon yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn trafod eu dysgu'n ddeallus ac yn esbonio gwybodaeth a syniadau'n eglur.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn medru darllen llyfrau, a'u gwaith eu hunain, i safon sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn darllen gyda rhuglder a chywirdeb cynyddol ac yn trafod agweddau o lyfr yn hyderus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen ystod o destunau yn gywir a gyda mynegiant priodol yn y ddwy iaith. Maent yn trafod yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi. Gall mwyafrif o ddisgyblion hŷn ddefnyddio llyfrau gwybodaeth a'r we yn briodol ar gyfer ymchwilio i ffeithiau i'w defnyddio mewn gwaith trawsgwricwlaidd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall bron pob disgybl ysgrifennu brawddegau synhwyrol i wahanol bwrpasau, gan ddangos gafael dda ar atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio geirfa addas a diddorol ac yn amrywio cychwyn brawddegau yn y ddwy iaith. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol gan ddefnyddio paragraffau ac yn atalnodi'n gywir. Maent yn defnyddio cystrawennau mwy amrywiol gan ddethol geirfa ac ymadroddion i greu effaith, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd am daith y trên cyntaf ym Mhenydarren yn y Gymraeg a gwaith ar y pyllau glo lleol yn Saesneg. Er hyn, nid yw safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith lleiafrif o ddisgyblion ar draws yr ysgol bob amser yn gyson dda.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Ar gychwyn y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf adnabod rhifau i ddeg a chyfrif ymlaen ac yn ôl yn hyderus. Gall llawer gasglu gwybodaeth, ffurfio graffiau a'u dadansoddi yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn llwyddo i ddatrys problemau

mathemategol yn llwyddiannus wrth chwarae rôl a defnyddio arian. Mae'r rhan fwyaf yn adnabod amser yn gywir a'i ddefnyddio i ddadansoddi amserlenni.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau rhifedd llawer o'r disgyblion yn dda. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfrifo yn gywir ar gyfer datrys problemau rhif. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ganfod faint o fywydau a gollwyd mewn trychinebau yn y pyllau glo lleol.

Mae safonau disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen o ran cyrraedd y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau iaith a datblygiad mathemategol yn 2014 yn dda. Am ddwy o'r tair blynedd ddiwethaf, mae'r perfformiad mewn medrau iaith yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, tra bod y medrau mathemategol yn y 50% is. Mae perfformiad disgyblion ar y deilliant 6 uwch mewn medrau mathemategol yn gyson dda ond nid yw eu perfformiad mewn medrau iaith ar y deilliant 6 gystal.

Mae safonau disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2014 yn anghyson o ran cyrraedd y lefel 4 ddisgwyliedig ym mhob pwnc a asesir. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r perfformiad mewn mathemateg yn gyson dda ac yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu well mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad o ran y Gymraeg a Saesneg hefyd yn dda ac yn y chwarteli uwch am lawer o'r cyfnod. Ar wahân i'r Gymraeg, sydd yn gyson yn y 50% uwch neu well, nid yw perfformiad disgyblion ar lefel 5 yn cymharu cystal ag ysgolion tebyg.

Ar draws yr ysgol mae disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Fodd bynnag, mae niferoedd bychain y disgyblion hyn yn y ddau gyfnod allweddol yn cael effaith nodedig ar y data yn arbennig o ran cyrraedd y deilliant 5 a lefel 4.

Mae merched yn y Cyfnod Sylfaen yn gyson yn perfformio'n well na bechgyn o ran cyrraedd deilliant 5 a'r deilliant 6 uwch yn y Gymraeg a mathemateg. Mae'r darlun ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn fwy anghyson o ran cyrraedd lefel 4 neu'r lefel 5 uwch yn y pedwar pwnc a asesir.

Mae bron pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda ac yn gwneud cynnydd yn erbyn eu targedau personol.

**Lles: Digonol**

Mae bron pob un disgybl yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta a byw'n iach ac yn mwynhau ystod eang o weithgareddau corfforol amrywiol. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n rhydd i droi at eu cyfoedion neu unrhyw aelod o staff yr ysgol am gymorth a chyngor parod fel bo'r angen.

Mae bron pob un disgybl yn cyfranogi'n dda mewn gwersi ac yn frwdfrydig am eu dysgu. Maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion. Maent yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn

gwybod beth sydd angen ei wneud i wella. Fodd bynnag, nid yw ychydig iawn o ddisgyblion yn cyflawni digon mewn gwersi.

Mae ymddygiad ac agosatrwydd y disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol ac maent yn dangos parch a gofal at ei gilydd ac at oedolion. Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd materion lles, iechyd a diogelwch. Trwy amrywiaeth o weithgareddau yn yr ysgol, yn ogystal â phrofiadau allgyrsiol, mae disgyblion yn datblygu ystod dda o fedrau cymdeithasol a bywyd.

Mae disgyblion yn cael llawer o gyfleoedd i fynegi barn a gwneud penderfyniadau trwy waith y cyngor ysgol, y pwyllgor eco a'r cyngor iach. Trwy hyn, maent yn cyfrannu'n weithredol at wneud penderfyniadau sydd wedi arwain at welliannau i'r ysgol. Enghreifftiau o hyn yw codi cysgod ar fuarth yr ysgol, ac adleoli ac adnewyddu'r llyfrgell gan ei wneud yn fwy deniadol ac apelgar. O ganlyniad, mae mwy o ddisgyblion yn ymweld ac yn gwneud defnydd ohono.

Er ymdrechion yr ysgol, mae presenoldeb disgyblion yn wael o gymharu ag ysgolion tebyg, gan ei gosod yn y 25% isaf o ysgolion tebyg bob blwyddyn am y pedair blynedd ddiwethaf.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu sy'n bodloni anghenion bron pob un o'r disgyblion ac yn ateb gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, Y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r profiadau hyn yn ennyn diddordeb bron pob un o'r disgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith sydd yn bodloni gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'r gweithgareddau sydd yn cael eu darparu yn caniatáu disgyblion i ddatblygu eu medrau rhifedd, llythrennedd a TGCh yn llwyddiannus. Enghraifft dda o hyn yw defnydd y disgyblion o daenlen i gyfrifo cost treth ar werth ar nwyddau trwy greu fformiwla a chyflwyno hyn mewn adroddiad.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig yn gryfder ar draws yr ysgol. Enghraifft o hyn yw disgyblion yn creu sgript am yr ardal leol a'i ddarlledu ar raglen radio. Trwy themâu dosbarth, arddangosfeydd, ymweliadau a chyfleoedd i berfformio mewn eisteddfodau a gweithgareddau cymunedol megis gwaith ar y pyllau glo lleol, mae'r ysgol yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o'u treftadaeth a'u hardal leol yn llwyddiannus. Mae'r elfen hon yn cael ei hatgyfnerthu ymhellach drwy gydweithio ar brosiectau gydag awduron enwog a chwaraewraig pêl rwyd ryngwladol.

Mae darpariaeth effeithiol ar gyfer dysgu am gynaliadwyedd, gyda'r disgyblion yn weithredol wrth ailgylchu, sydd yn lleihau gwastraff yr ysgol yn sylweddol. Maent hefyd yn casglu dŵr glaw i ddyfrio'r ardd er mwyn tyfu llysiau a blodau yn llwyddiannus. Fodd bynnag, digonol yw'r ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang.

**Addysgu: Da**

Mae’r athrawon ar draws yr ysgol yn llwyddo i greu awyrgylch gwaith lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel ac yn gallu ymddiried yn y staff. Mae’r berthynas werthfawr hon yn sicrhau bod ymddygiad y disgyblion yn dda ym mhob dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae’r cydweithio effeithiol rhwng yr athrawon a’r cynorthwywyr yn un o gryfderau’r ysgol. Maent oll yn fodelau iaith hynod o werthfawr ac mae safon medrau llafar y disgyblion yn adlewyrchu hyn. Defnyddia llawer o athrawon a chynorthwywyr gwestiynau penagored yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl disgyblion ac i sicrhau eu bod yn deall y gwaith. Mae bron pob athro yn gwneud cysylltiadau effeithiol gyda gwaith blaenorol ac mae hyn yn helpu disgyblion i wneud cynnydd da yn ystod y wers. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth yn sicrhau bod y disgyblion mwy abl yn cael eu herio’n ddigon cyson ar draws yr ysgol. Mewn ychydig iawn o eithriadau, mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel ac, o ganlyniad, nid yw disgyblion yn cyflawni digon yn y wers ac mae cyflwyniad y gwaith yn flêr.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Lle mae ar ei orau, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant yn drwyadl gyda'r disgyblion. Mae bron pob athro yn marcio gwaith y disgyblion yn gyson ac yn cynnig sylwadau adeiladol. Caiff llawer o’r disgyblion gyfleoedd i fyfyrio a chywiro gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae hyn yn hybu annibyniaeth yn y dysgu yn llwyddiannus. Mae llawer o athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i ymateb yn ysgrifenedig er mwyn eu cynorthwyo i wella safon eu gwaith.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r data i fonitro cynnydd y disgyblion ac i ddarparu rhaglenni addysgol ychwanegol yn ôl yr angen. Mae adroddiadau blynyddol i rieni am gynnydd a lles eu plant yn rhoi gwybodaeth fuddiol iddynt ac o ansawdd da.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae’r ysgol yn hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn dda. Datblygir dealltwriaeth y disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff yn llwyddiannus ac ategir hyn trwy gynnig amrywiaeth o weithgareddau mewn gwersi ac ar ôl ysgol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach drwy sicrhau bod cyflenwad o ddŵr ar gael i bawb a chynnig dyddiol i brynu ffrwythau.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn dangos parch a gofal at eraill. Mae’r disgyblion yn cael cyfle cyfartal i ymuno yn yr ystod o gyfleoedd allgyrsiol.

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol sy’n sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle cyfartal. Mae’n rhoi blaenoriaeth uchel i les a diogelwch ei disgyblion ac mae polisïau a gweithdrefnau effeithiol yn eu lle. Mae'r staff yn adnabod anghenion lles y disgyblion yn dda ac mae gan yr ysgol raglen effeithiol o gefnogaeth i ddatblygu iechyd emosiynol ac ymddygiad disgyblion. Mae’r rhaglen gymorth wedi gwreiddio yn yr ysgol ac yn effeithiol wrth hyrwyddo datblygiad personol disgyblion. Mae hyn yn datblygu medrau bywyd disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau arbenigol fel yr heddlu, gwasanaethau iechyd a chymdeithasol yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae'r ysgol yn adnabod disgyblion sydd angen cymorth yn gynnar ac yn darparu rhaglenni unigol addas ar eu cyfer. Mae'r rhaglenni yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae'r rhieni yn rhan o'r broses. Mae'r ysgol yn darparu rhaglen ymyrraeth rhifedd a llythrennedd buddiol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion ac unigolion. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar lle mae perthynas iach o barch ar y cyd ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn deillio o weledigaeth gadarn yr ysgol ar y pedair C, sef 'Cymreictod', 'cwrteisi', 'caredigrwydd' a 'ceisio'n gorau glas'. Mae hyn yn ganolog i holl weithgareddau'r ysgol. Mae'r ysgol yn cynnig amgylchedd diogel a chroesawgar i'r holl ddisgyblion a chyfleoedd o fewn y ddarpariaeth i arddangos agweddau goddefgar. Mae'r ysgol yn ymroi'n weithgar i godi arian at achosion da yn lleol ac yn genedlaethol, er enghraifft Cronfa Achub y Plant. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth disgyblion o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn llwyddiannus. Mae pob disgybl yn cael ei gynnwys yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.

Mae defnydd pwrpasol yn cael ei wneud o dir ac adeilad yr ysgol ar gyfer chwarae a dysgu. Bu i'r cyngor ysgol fod yn rhan o ddatblygu'r ardaloedd hyn drwy weithredu ar argymhellion eu cyd-ddisgyblion, yn arbennig drwy sefydlu cysgodfan ac adnewyddu toiledau'r bechgyn. Mae'r ardaloedd awyr agored yn cael eu datblygu, ac yn cynorthwyo'r staff i fodloni egwyddorion y Cyfnod Sylfaen a chyfoethogi profiadau'r disgyblion. Mae adnoddau pwrpasol yn yr ystafelloedd dosbarth ac mae'r athrawon yn gwneud defnydd da ohonynt i hybu'r dysgu. O fewn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau, mae arddangosfeydd amrywiol sy'n cynnwys gwaith y disgyblion a chofnod o'u profiadau a'u llwyddiannau. Mae'r holl safle'n ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae hyn yn sicrhau cyfeiriad clir a chadarn i'r ysgol. Mae'r uwch dîm rheoli a'r holl staff yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Mae gan bob aelod o'r staff ddisgrifiadau swydd clir a chyfrifoldebau penodol ar gyfer datblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn gwneud defnydd pwrpasol o ddata'r ysgol ac yn adnabod meysydd i'w gwella. Mae holl staff yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i

gyflawni gwelliannau sy’n cryfhau'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarnhaol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a darpariaeth yn yr ysgol. Mae datblygiad parhaus llythrennedd, rhifedd a TGCh yn enghreifftiau da o hyn.

Mae cyfarfodydd staff a llywodraethwyr yn cael eu defnyddio i drafod blaenoriaethau a chynnydd yn rheolaidd, gyda sylw clir i godi safonau. Mae’r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau cynhwysfawr sydd yn cyfeirio at berfformiad disgyblion a'u cyrhaeddiad, a'r cynnydd yn erbyn blaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys adroddiadau monitro manwl wedi eu seilio ar arsylwadau dosbarth a chraffu ar lyfrau gan y pennaeth a’r uwch dim rheoli. Yn ogystal, mae’r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau ar ddata perfformiad sydd wedi arwain at well dealltwriaeth o berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill tebyg. O ganlyniad, mae'r llywodraethwyr yn gwneud cyfraniadau buddiol fel ‘cyfeillion beirniadol' ac yn cyfrannu at brosesau cynllunio strategol yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn a manwl ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae'r ysgol yn casglu barn disgyblion, rhieni a rhanddeiliaid eraill yn effeithiol ac yn gweithredu ar y casgliadau sydd o fudd i addysg a lles disgyblion. Er enghraifft, mae’r ysgol yn ddiweddar wedi cynnal sesiynau i rieni ar ddatblygu medrau ffoneg a darllen eu plant, sydd yn dylanwadu’n gadarnhaol ar safonau darllen llawer o’r disgyblion.

Mae'r adroddiadau hunanarfarnu yn fanwl ac yn rhoi darlun gwrthrychol a chywir o sefyllfa gyfredol yr ysgol ynghylch dysgu, addysgu a safonau. Mae pob aelod o staff a llywodraethwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses hunan arfarnu ac yn cynnig mewnbwn gwerthfawr i'r trafodaethau. Mae deilliannau'r prosesau hyn yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu, ac o ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yr ysgol yn dda.

Mae'r cynllun gwella ysgol yn ddogfen weithredol sy'n cynnwys nifer resymol o flaenoriaethau priodol. Mae'r blaenoriaethau hyn yn cyd-fynd â’r materion sy'n cael eu nodi yn yr hunanarfarniad. Mae gan holl aelodau'r staff a'r llywodraethwyr rolau priodol mewn creu, gweithredu a monitro agweddau penodol o flaenoriaethau’r cynllun datblygu. Caiff gweithrediad y cynllun, ynghyd ag effaith y datblygiadau ar yr ysgol, eu trafod yn gyson mewn cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae’r rhieni yn gefnogol iawn i sesiynau materion cwricwlaidd sy’n datblygu eu dealltwriaeth o lythrennedd a sut i helpu eu plant adref. Mae’r ysgol wedi datblygu ei chyswllt strategol gyda rhieni ymhellach drwy sefydlu cyngor rhieni llwyddiannus sydd yn cwrdd i drafod materion ysgol gyda’r pennaeth. O ganlyniad, mae rhieni’n cael cyfle i arsylwi ar wersi er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o’r strategaethau dysgu diweddaraf.

Mae’r gymdeithas rhieni a ffrindiau’r ysgol yn trefnu gweithgareddau llwyddiannus i godi arian at brynu adnoddau i’r ysgol, er enghraifft, offer TGCh ac adnoddau i’r buarth tu allan.

Mae cysylltiadau effeithiol gyda’r cylchoedd meithrin yn y dalgylch yn sicrhau bod y disgyblion yn ymgartrefu’n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae’r ysgol yn gweithio’n bwrpasol gydag ysgolion y clwstwr ac ysgolion yr awdurdod ar wahanol brosiectau sydd yn arwain at godi safonau, er enghraifft y prosiect TGCh. Mae gan yr ysgol bartneriaethau llwyddiannus gyda'r ysgolion uwchradd lleol, er enghraifft wrth sicrhau fod disgyblion yn trosglwyddo’n esmwyth o'r sector cynradd i'r uwchradd. Mae gwaith addas ar safoni a chymedroli asesiadau athrawon yn digwydd yn y pynciau craidd. Mae hyn yn sicrhau cywirdeb athrawon wrth asesu.

Mae ymweliadau â’r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Mae’r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiol ddigwyddiadau lleol fel gwasanaethau a chyngherddau yn yr addoldai ac ysbyty lleol. Yn ogystal, maent yn cefnogi ymgyrchoedd lleol drwy godi ymwybyddiaeth y gymuned i gadw’r ganolfan gymunedol leol ar agor ac ymuno â’r llyfrgell leol. Mae’r berthynas glos hon yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn effeithiol iawn ac yn dyfnhau eu hymwybyddiaeth o berthyn i’r gymuned.

Mae’r bartneriaeth fuddiol rhwng yr ysgol ac asiantaethau arbenigol yn sicrhau ymateb priodol i gefnogi disgyblion bregus pan fo’r angen. Enghraifft o hyn yw’r gwasanaeth mae’r nyrs leol yn ei gynnig i rieni alw i mewn i’w gweld yn yr ysgol os oes ganddynt unrhyw bryderon yn ymwneud â’u plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r ysgol yn rheoli ei hadnoddau’n effeithiol. Mae wedi ei staffio’n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi’r dysgu ac addysgu. Enghraifft nodedig o hyn yw’r hyfforddiant mewnol sydd wedi ei gynnig i’r holl athrawon yn y defnydd pwrpasol o TGCh yn yr addysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder yr athrawon ac ar y profiadau eang mae’r disgyblion yn eu derbyn. Mae’r arfer dda hon wedi ei rhannu’n llwyddiannus iawn gydag ysgolion eraill ac mae’r ysgol yn ganolfan gyfeirio i un o’r prif gwmnïau rhyngwladol.

Gwna athrawon defnydd pwrpasol o’u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a rheolir y trefniadau ar gyfer hyn yn dda. O ganlyniad i’r broses rheoli perfformiad, caiff hyfforddiant ei gynllunio mewn perthynas â blaenoriaethau’r ysgol ac anghenion unigolion yn synhwyrol.

Mae’r ysgol yn rhannu adnoddau’n llwyddiannus gydag ysgolion lleol. Enghraifft o hyn yw datblygu adnoddau mathemateg ar y cyd drwy ddefnyddio grant i alluogi staff i gydweithio’n briodol.

Mae’r pennaeth, yr ysgrifenyddes a’r is bwyllgor cyllid yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus gan wneud defnydd pwrpasol o’r arian a oedd wrth gefn i wella diwyg mewnol yr ysgol ac adnoddau TGCh. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ar gyfer codi safonau a lles y disgyblion.

Mae’r ysgol yn gwneud defnydd buddiol o’r Grant Amddifadedd Disgyblion drwy ddefnyddio cynorthwywyr i gefnogi’r disgyblion hyn. Mae’r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol. Mae defnydd effeithiol o’r arian yn cael ei wneud trwy ariannu darpariaeth er mwyn datrys problemau ymddygiad ac emosiynol disgyblion.

O ystyried y safonau da, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6742364 - Ysgol Gymraeg Abercynon**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 361 | |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.4 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 40 | 40 | 47 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 85.0 | 80.0 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 40 | 47 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 82.5 | 91.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 35.0 | 25.0 | 31.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 3 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 40 | 47 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 87.5 | 87.5 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 25.0 | 37.5 | 31.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 40 | 40 | 47 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.0 | 95.0 | 95.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 70.0 | 25.0 | 51.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6742364 - Ysgol Gymraeg Abercynon**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 361 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 16.4 |
| Grŵp PYD | 3 (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 22 | 46 | 31 | 45 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.9 | 89.1 | 90.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 46 | 31 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 89.1 | 90.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 23.9 | 29.0 | 51.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 46 | 31 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.9 | 84.8 | 90.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 21.7 | 25.8 | 51.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 46 | 31 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 93.5 | 90.3 | 95.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 27.3 | 19.6 | 22.6 | 35.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 46 | 31 | 45 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 95.5 | 97.8 | 90.3 | 91.1 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 22.7 | 23.9 | 16.1 | 37.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 94 | 94<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 94 | 86<br>91% | 8<br>9% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 94 | 92<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 94 | 93<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 94 | 94<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 93 | 84<br>90% | 9<br>10% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 94 | 94<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 94 | 92<br>98% | 2<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 94 | 89<br>95% | 5<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 93 | 92<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 94 | 76<br>81% | 18<br>19% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 93 | 77<br>83% | 16<br>17% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

**Ymateb i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Ellis Pryse | Arolygydd Cofnodol |
| Ms Delyth Mainwaring | Arolygydd Tîm |
| Ms Sioned Hywel Thomas | Arolygydd Tîm |
| Dr Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Mr Ceri Scourfield | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Jonathan Cooper | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.